

Mark Drakeford AM/AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref: MA-P/MD/1306/17

Simon Thomas AC,
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid,
Cynulliad Cenedlaethol Cymru,
Bae Caerdydd,
Caerdydd
CF99 1NA

18 Ebrill 2017

Annwyl Simon

Diolch i chi am waith craffu'ch Pwyllgor ar yr Ail Gyllideb Atodol 2016-17 a'r adroddiad a ddaeth yn ei sgil.

Amgaeaf ymateb ysgrifenedig i'r argymhellion a wnaed.

Gobeithio y bydd hyn yn ddefnyddiol ac edrychaf ymlaen at gydweithio â chi yn y dyfodol.

Yn gywir

Mark Drakeford AM/AC

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ymateb Ysgrifenedig i Adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Craffu ar Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2016-17

13 Ebrill 2017

Prif ddiben yr Ail Gyllideb Atodol, yn unol â'r hyn sy'n arferol, oedd adlewyrchu newidiadau cyllidebol ers Cyllideb Atodol Gyntaf 2016-17 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2016. Hefyd, rheoleiddiodd nifer o ddyraniadau o'n cronfeydd wrth gefn, trosglwyddiadau rhwng Adrannau Llywodraeth Cymru, trosglwyddiadau gydag Adrannau Llywodraeth y DU ac roedd yn cynnwys rhagolygon diwygiedig Gwariant a Reolir yn Flynyddol.

Dyma oedd y cyfle olaf i ddiwygio'r cynlluniau cyllidebol cyn diwedd blwyddyn ariannol 2016-17.

O gofio natur raddnodi o argymhellion y Pwyllgor, mae y Llywodraeth wedi darparu ymateb naratif ochr yn ochr â pob un yn nodi meysydd o'r cytundeb a'r materion sydd angen ystyriaeth bellach. Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Cyllid am y gwaith a wnaed ac edrychaf ymlaen at weithio gyda'r aelodau yn y dyfodol.

Nodir Ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad isod:

Argymhelliad 1

Er bod y Pwyllgor yn cydnabod mai Cyllideb Atodol yw hon a bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi dod i rym lai na blwyddyn yn ôl, mae o'r farn bod gweithredu'r Ddeddf yn wan, ac mae gwan hefyd yw cysylltu amcanion a dangosyddion perfformiad sy'n gysylltiedig â rhoi'r Ddeddf ar waith. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru adolygu ei dull o roi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar waith er mwyn sicrhau bod ei hegwyddorion yn cael eu hymgorffori yn niwylliant gwneud penderfyniadau Llywodraeth Cymru.

Ymateb:

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i wneud gwelliannau sy'n dangos yn gliriach sut y mae'n defnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i lywio penderfyniadau cyllidebol.

Pan roddais dystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid ym mis Hydref, dywedais y byddai angen gwneud mwy i feddwl am sut y bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r pum ffordd o weithio yn y dyfodol.

Bydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gweithredu fel newid diwylliannol o ran y ffordd rydym yn gweithio. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y bydd rhai dyraniadau penodol lle ceir cysylltiad amlwg â'r Ddeddf. Fodd bynnag, mae'n bwysig ystyried sut y mae'r gyllideb gyfan yn ategu'r Ddeddf, yn hytrach na dim ond canolbwyntio ar elfennau lluosog ar wahân.

Yn ystod y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar 6 Rhagfyr, ymrwymais i gyflwyno rhai newidiadau'r flwyddyn nesaf i'r paratodau cyllideb fewnol, gan weithio drwy welliannau y gellir eu gwneud drwy ddefnyddio'r egwyddorion yn y Ddeddf. Ni fydd yr holl newidiadau yn digwydd ar unwaith ac ni fyddant i gyd yn digwydd dros nos. Ystyrir gwaith i nodi newidiadau ochr yn ochr â gwaith ehangach i ymgorffori egwyddorion y Ddeddf.

Goblygiadau Ariannol: Dim.

Argymhelliad 2

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i ddarparu adroddiad blynyddol ar y gronfa Buddsoddi i Arbed, a ddylai gynnwys manylion ar symiau a fenthycwyd ac a ad-dalwyd, ac amserlenni'r ad-dalu

Ymateb:

Mae'r Gronfa Buddsoddi i Arbed eisoes yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol a roddir ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae'r adroddiad hefyd yn cael ei ategu gan Gyfeiriadur o Brosiectau. Gellir dod o hyd i'r ddau drwy ddilyn y dolenni isod.

<http://gov.wales/topics/improvingservices/invest-to-save/2016-annual-report?skip=1&lang=cy>

<http://gov.wales/topics/improvingservices/invest-to-save/2016-directory-of-projects/?skip=1&lang=cy>

Mae'r cyfeiriadur wrthi'n cael ei ddiweddararu ar hyn o bryd ar gyfer y prosiectau diweddaraf. Mae'n cynnwys enw'r prosiect, y sefydliad, swm y buddsoddiad a disgrifiad byr o'r fenter.

Mae'r amserlenni ar gyfer ad-dalu'r buddsoddiadau yn amrywio o brosiect i brosiect. Fel arfer, mae prosiectau effeithlonrwydd ynni yn cymryd ychydig yn hwy i'w had-dalu a gallant gymryd hyd at 8-10 mlynedd yn sgil y ffaith bod yr arbedion yn dibynnu ar y dechnoleg a weithredir yn y prosiect.

Gall y prosiectau nad ydynt yn defnyddio ynni'n effeithlon gynnwys cyfnodau ad-dalu yn amrywio o flwyddyn i 5 neu 6 blynedd ond mae'r amseroedd wedi'u nodi ar sail fesul achos oherwydd gall llawer o wahanol amgylchiadau gael effaith, fel:

- Lefel y buddsoddiad y mae'n rhaid i'r derbynnydd ei wneud yn y prosiect. Gallai hyn ddefnyddio eu hadnoddau oherwydd bod y Gronfa fel arfer yn buddsoddi uchafswm o 75% o ran costau prosiect.
- Nifer y mentrau sy'n mynd rhagddynt. Er enghraifft cafodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf gyllid ar gyfer sawl prosiect yn 2014.
- Proffil cyllideb y Gronfa. Rydym yn awyddus i geisio osgoi proffiliau cyllideb 'swmpus' oherwydd bod angen inni reoli'r galw am brosiectau newydd bob blwyddyn.

- Sefyllfa ariannol y sefydliad sy'n derbyn. Efallai y bydd angen iddynt weld rhyw fudd ariannol uniongyrchol cyn gynted ag y bo prosiectau'n cael eu cwblhau. Fel rhan o'u cais gallant felly gyflwyno achos ar gyfer cyfnod ad-dalu ychydig yn hwy na'r hyn fyddai'n wir pe bai'r holl gynilion yn cael eu defnyddio i ad-dalu'r buddsoddiad cyn gynted â phosibl.
- Llithriant o ran y prosiect sy'n golygu y gall rhai buddiannau gael eu hoedi sy'n gallu cael sgil-ffaith ar effaith amser ad-daliadau os credir bod cyfiawnhad dros hyn.
- Efallai y bydd rhai sefydliadau'n gofyn am ad-daliad cynnar os yw eu sefyllfa gyllidebol oherwydd newid ac y byddai ad-daliad cynnar yn galluogi iddynt fodloni eu goblygiadau ariannol yn haws yn y dyfodol.

Felly gall y sefyllfa o ran ad-daliadau fod yn eithaf cymhleth ac yn newidiol. Fodd bynnag, yr hyn sy'n wir, ac sydd wedi bod yn wir ers 2009, yw bod 100% o'r buddsoddiadau wedi eu had-dalu ac mae'r Gronfa mewn sefyllfa lle mae ganddi gronfeydd sylweddol wedi eu rhaglenni ar gyfer ail-fuddsoddi tan 2022-23.

Goblygiadau Ariannol: Dim.

Argymhelliad 3

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai rhagor o waith gael ei wneud gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r diffyg tryloywder o ran y cyllid a ddyrennir o fewn y portffolio Iechyd, Llesiant a Chwaraeon.

Ymateb:

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y cwmpas i ddarparu rhagor o wybodaeth am newidiadau cyllido rhwng sectorau gofal yn y dystiolaeth gyllideb i'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon mewn cylchoedd cyllideb yn y dyfodol. Yn y cyfamser, mae'r wybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus yn cynnwys:

LHB 2017-18 Health Boards and Public Health Wales NHS Trust Allocations (WHC (2016) 055)

<http://gov.wales/docs/dhss/publications/161221whc055en.pdf>

NHS expenditure by budget category and year

<https://statswales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/Health-Finance/NHS-Programme-Budget/NHSExpenditure-by-BudgetCategory-Year>

Goblygiadau Ariannol: Dim.

Argymhelliad 4

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru adolygu a oes unrhyw ffactorau strwythurol, nad ydynt yn cael eu hystyried ar hyn o bryd yn nyraniadau'r byrddau iechyd, sy'n effeithio ar allu'r byrddau iechyd i ddarparu gwasanaethau o fewn yr adnoddau a ddyrannwyd iddynt. Dylai Llywodraeth Cymru roi unrhyw newidiadau i'r dyraniadau cyllid ar waith yn ôl yr angen.

Ymateb:

Yn unol â'm tystiolaeth i'r Pwyllgor ar 16 Chwefror 2017 bydd adolygiad yn seiliedig ar sero yn cael ei gynnal, ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon ar y ffactorau strwythurol yn y cyfluniad presennol ym Mwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda. Bydd canfyddiadau'r adolygiad yn llywio unrhyw newidiadau arfaethedig i ddyraniadau cyllido.

Goblygiadau Ariannol: Dim.

Argymhelliad 5

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda byrddau iechyd a darparwyr gofal cymdeithasol i sicrhau bod byrddau iechyd yn cynllunio'n strategol ar gyfer galw brig tymhorol, yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf, ac yn cyfyngu ar ei effaith

Ymateb:

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yn llawn bwysigrwydd yr angen i'n gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ymateb i'r heriau y byddwn yn eu hwynebu drwy gydol y flwyddyn, nid dim ond ar gyfer y gaeaf – a dyma pam rydym wedi cymryd dull system gyfan wrth gynllunio a darparu gwasanaethau i bobl Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gynorthwyo sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru drwy nifer o ddulliau gan gynnwys ein cyfarfodydd Cynllunio Tymhorol Cenedlaethol i lywio datblygu eu cynlluniau tymhorol, sy'n cynnwys parodrwydd ar gyfer y gaeaf. Mae hyn yn cynnwys nodi'r gwersi a ddysgwyd o flynyddoedd blaenorol a pharhau dull cydweithredol drwy hwyluso rhannu arfer da ar draws y GIG a'r gymuned gofal.

Rydym wedi sefydlu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol statudol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r Byrddau hyn yn dwyn ynghyd fyrddau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, y trydydd sector a phartneriaid eraill i asesu, cynllunio a darparu ar y cyd ar gyfer anghenion eu poblogaethau a gwella canlyniadau a llesiant.

Mae cymorth wedi'i ddarparu hefyd i fyrddau iechyd drwy'r Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Gofal Heb ei Drefnu (NPUC), a gomisiynodd Uned Cyflenwi GIG Cymru i ddatblygu 'Offeryn Llif Dyddiol', sydd wedi galluogi coladu gwybodaeth o bob ysbyty cyffredinol dosbarth yng Nghymru ynglŷn â llif dyddiol y cleifion drwy adrannau damweiniau ac achosion brys, i mewn i'r system ysbyty ac ar ôl cael eu rhyddhau o'r ysbyty.

Yn sgil y potensial sylweddol ar gyfer defnyddio'r Offeryn Llif Dyddiol i gynorthwyo cynllunio yn seiliedig ar dystiolaeth o batrymau galw, mae Prif Weithredwr GIG wedi ysgrifennu at Brif Weithredwyr Gwasanaethau Ambiwllans Ymddiriedolaeth y GIG, Prif Swyddogion Gweithredu a

Chyfarwyddwyr Cynllunio, gan eu hannog i ddefnyddio'r Offeryn i ystyried sut y gallai adnoddau gael eu cysoni i gynorthwyo cynllunio a chyflawni cadarn, gan ganolbwyntio i ddechrau ar benwythnos y Pasg i dorri'r cylch a lliniaru effaith y cynnydd disgwylidig mewn galw dros benwythnos y Pasg.

Mae gwaith hefyd ar y gweill i ddiffinio diwrnod cyfartalog ar draws y system gyfan. Mae Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a'r Cyfarwyddwr Rhaglen ar gyfer Datblygu Strategol Gofal Sylfaenol yn gweithio gyda'r NPUC i nodi dangosyddion ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal sylfaenol, yn y drefn honno.

Yn olaf, ym mis Tachwedd 2016, gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon ymrwymiad i gynnal adolygiad o gadernid gwasanaethau gofal iechyd a chymdeithasol dros aeaf 2016/17. Ers hynny mae'r Bwrdd NPUC wedi cymeradwyo gwerthusiad cadarn ac amlasiantaeth o gadernid y system iechyd a gofal cymdeithasol dros gyfnod y gaeaf a bydd Stephen Harrhy, Cyfarwyddwr y rhaglen genedlaethol ar gyfer gofal heb ei drefnu yn goruchwyllo'r gwaith hwn, gyda chyfraniad gan fyrddau iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru, WAST, Awdurdodau Lleol, Llywodraeth Cymru a phartneriaid allweddol eraill.

Nod y gwerthusiad yw pennu i ba raddau roedd cynlluniau integredig gwasanaethau iechyd a gofal wedi cyflwyno'r canlyniadau disgwylidig ar draws y system gyfan, ac ystyried meysydd o arfer da y gellid eu rhannu'n genedlaethol er mwyn cyfrannu at well darpariaeth y gaeaf nesaf.

O ganlyniad i gamau gweithredu a buddsoddiad dros y blynyddoedd diwethaf, bydd amseroedd aros ar gyfer triniaethau dewisol a phrofion diagnostig wedi lleihau yn ystod 2016/17 yn ei chyfanrwydd, ac felly hefyd achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal.

Goblygiadau Ariannol: Dim.

Argymhelliad 6

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu dadansoddiad o sut y mae costau yn y Gyllideb Atodol hon yn ymwneud â phenderfyniadau polisi Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru mewn perthynas â benthyciadau myfyrwyr, a sut y gall newidiadau fod wedi effeithio ar gostau bwrw ymlaen â'r polisi.

Ymateb:

Nid yw'r newidiadau a amlinellir yn y gyllideb yn cael unrhyw effaith ar fforddiadwyedd y polisiâu a amlinellwyd yn ymateb Llywodraeth Cymru i Diamond. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno rhagolygon diwygiedig i lywodraeth y DU yn amlinellu ei chynlluniau ar gyfer darparu mwy o fenthyciadau yng Nghymru. Cafodd y rhagolygon hyn eu derbyn gan Drysorlys Ei Mawrhydi ym mis Rhagfyr 2016.

Mae'r newidiadau a adlewyrchir yn y gyllideb hon yn cwmpasu darparu benthyciadau myfyrwyr ychwanegol. Roedd hyn yn adlewyrchu cynnydd yn y galw am fenthyciadau ym mlwyddyn ariannol 2016-17 ac nid oedd yn cydberthyn yn uniongyrchol â phenderfyniad gan naill ai Llywodraeth Cymru na Lywodraeth y DU.

Mae newidiadau eraill o ganlyniad i newidiadau i'r model benthyciadau myfyrwyr fel cyfraddau llog diwygiedig sydd y tu hwnt i reolaeth Llywodraeth Cymru.

Goblygiadau Ariannol: Dim.

Argymhelliad 7

Mae'r Pwyllgor o'r farn bod yna symiau sylweddol y gofynnir amdanynt yn y Gyllideb Atodol, ac nad oes disgrifiad digonol o'r hyn y mae'n ofynnol i'r

symiau hyn ei ariannu, yn benodol, y cyllid ychwanegol o £30.8 miliwn ar gyfer y Cam Gweithredu Sectorau a'r £22 miliwn ar gyfer datblygu llwybr yr M4. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai dogfennau cyllidebau yn y dyfodol ddarparu rhagor o dryloywder.

Ymateb:

Lle y caif ei ddarparu, bydd cyllid ychwanegol o fewn y Cam Gweithredu Sectorau yn cyflawni yn erbyn blaenoriaethau datblygu economaidd y Llywodraeth hon i gynorthwyo twf a swyddi.

Fodd bynnag, o ran y ddogfennaeth cyllideb a gyhoeddir, sicrhawyd cydbwysedd rhwng tryloywder a chyfrinachedd. Fel yr amlinellais yn y Pwyllgor mae'r ymyriadau penodol sy'n gysylltiedig â dyraniadau'r Sector yn cynnwys symiau sy'n destun trafodaethau parhaus sy'n fasnachol gyfrinachol. Yn hyn o beth, mae'n amlwg y byddai cyhoeddi trefniadau cyllido a allai fod yn sensitif yn rhoi'r busnesau sy'n ei dderbyn mewn perygl.

Mewn perthynas â'r gofyniad cyffredinol am ddisgrifiadau digonol ar y defnydd o ddyraniadau cyllido, bwriad Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod dogfennaeth cyllideb yn ddigon manwl i ddarparu tryloywder priodol ar gyfer craffu gan y Pwyllgor.

Goblygiadau Ariannol: Dim.

Argymhelliad 8

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i ddarparu proffil manwl o'r cyllid a ddarparwyd i Faes Awyr Caerdydd, a manylion ynghylch pryd y bydd yr arian sy'n ddyledus yn cael ei ad-dalu.

Ymateb:

Gwerth presennol benthyciad Llywodraeth Cymru i Faes Awyr Rhyngwladol Caerdydd oedd £23 miliwn ar ddyddiad cyfarfod y Pwyllgor. Mae gwerth ein buddsoddiad ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol wedi ei gynnwys yn ein

cyfrifon archwiliedig ac sydd wedi eu cyhoeddi ar safle rhyngwryd Llywodraeth Cymru. Gwerth y cyfleuster benthycia a dynnwyd i lawr ar 31 Mawrth 2017 yw £25.6 miliwn.

Mae benthyciadau i Faes Awyr Rhyngwladol Caerdydd yn cael eu gwneud yn unol ag Egwyddor Gweithredu Economi'r Farchnad h.y. ar delerau masnachol. Mae ad-daliadau wedi cael eu cytuno â Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd i gyfateb i ragdybiau a rhagolygon cynllunio yn y dyfodol, sy'n ategu parhad twf y maes awyr yn dilyn cyfalafu cyfleoedd masnachol drwy ddenu llwybrau newydd.

Bydd Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd yn cyhoeddi rhai manylion ynglŷn ag ad-dalu'r trefniant benthyciad gyda Llywodraeth Cymru yn eu cyfrifon statudol ac yn unol â gofynion cyfrifyddu arferol. Nid yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi manylion a allai fod yn sylweddol niweidiol i Faes Awyr Rhyngwladol Caerdydd ac yn fanteisiol i gystadleuwyr.

Mark Drakeford AC

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol